

## Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 12.45 ar 04 HYDREF 2017, ym MedRus 3, Penbryn.**

Yn bresennol: Syr Emyr Jones Parry, Canghellor (Cadeirydd); Dr Timothy Brain, Trysorydd; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); Mr Keith Evans; Mrs Elizabeth France, Mr Richard John; Ms Gwerfyl Pierce Jones; Mr Ian MacEachern; Dr Emyr Roberts; Dr Hazel Davey; Ms Kath Williams; Yr Athro Reyer Zwigelaar; Mr Bruce Wight, Swyddog Datblygu'r Undeb, UMAber; a Mr Gwion Llwyd Williams, Llywydd UMCA.

Yn gweinyddu: Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (tan gofnod 16); Mr Rob Eastwood, Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro; Ms Susan Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (tan gofnod 12); Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Mrs Esther Prytherch, Pennaeth y Swyddfa Gyfathrebu (tan gofnod 16); a Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr George Ashworth; Ms Anne Davies; Mrs Janet Davies; a'r Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd.

### 1. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

#### 1. Croeso

Croesawyd Mr Rob Eastwood, Mr Bruce Wight, Mr Gwion Llwyd Williams, Ms Kath Williams, a'r Athro Reyer Zwigelaar i'w cyfarfod cyntaf yn aelodau o'r Cyngor.

#### 2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r Athro Emeritws D J Bowen, cyn Athro yn Adran y Gymraeg.

#### 3. Cyfansoddiad y Cyngor

1. Hwn fyddai cyfarfod cyntaf y Cyngor yn dilyn y diwygiadau i faint a chyfansoddiad y corff llywodraethu, a ddaeth i rym ar 01 Awst 2017.
2. Cafodd yr Athro Chris Thomas ei benodi gan yr Is-Ganghellor i fod yn aelod o'r Cyngor am flwyddyn academaidd 2017–18 yn rhinwedd swydd Dirprwy Is-Ganghellor. Ond, byddai croeso i bob Dirprwy Is-Ganghellor ddog i'r cyfarfodydd ar sail weinyddol a chyfrannu i drafodaethau'r Cyngor fel y gwnaethant yn flaenorol.

### 2. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Fel Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru, nododd Dr Emyr Roberts bod cyfeiriad at y sefydliad hwnnw yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 09 Mehefin 2017. Gan fod y cofnodion hynny wedi'u cyflwyno er gwybodaeth nid oedd angen i Dr Roberts adael y cyfarfod ar yr adeg berthnasol.

### 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2017 (COU1718-003).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

### 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1718-004).

NODWYD

Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

### 5. GOHEBIAETH

#### 1. Llythyr oddi wrth Undeb y Prifysgolion a Cholegau

DERBYNIWYD

Derbyniwyd llythyr, dyddiedig 15 Medi 2017, gan Gadeirydd y Cyngor oddi wrth Swyddog Cymru Undeb y Prifysgolion a Cholegau (COU1718-005).

NODWYD

Er na ddaeth Prifysgol Aberystwyth ac Undeb y Prifysgolion a Cholegau i gytundeb yn ystod mis Gorffennaf ynglŷn â'r arbedion costau sy'n angenrheidiol yn y Brifysgol, roedd yr Undeb yn werthfawrogol o barodrydd y Brifysgol i weithio mewn partneriaeth â'i staff. Croesawodd yr aelodau'r ymddiriedaeth a ddeilliodd o'r trafodaethau.

#### 2. Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol y Cyngor Cyllido

DERBYNIWYD

Llythyr dyddiedig 25 Medi 2017 a dderbyniwyd gan yr Is-Ganghellor oddi wrth Brif Weithredwr y Cyngor Cyllido (COU1718-006).

NODWYD

Nid oedd PA wedi derbyn Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol oddi wrth CCAUC yn ystod y cylch arferol. Yn hytrach, bydd y Cyngor Cyllido yn monitro'r ffordd y mae'r brifysgol yn rhoi'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd ar waith ac yn defnyddio'r datblygiadau hynny'n sail i'r Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol yn gynnar yn 2018.

### 6. ENNYD IECHYD A DIOGELWCH

NODWYD

Roedd Penwythnos Mawr y Croeso a'r Wythnos Ymgynefino wedi dechrau yn y Brifysgol ar 22 Medi 2017. Cafwyd disgrifiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) o'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer darparu croeso 24 awr i fyfyrwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd.

## 7. DIWRNOD ENCIL Y CYNGOR

NODWYD

1. Cynhaliodd y Cyngor ddiwrnod encil llwyddiannus ar brynhawn y 03 Hydref a bore'r 04 Hydref 2017. Bu'r diwrnod yn gyfle mewn sefyllfa anffurfiol i aelodau'r Cyngor gael cyfres o drafodaethau yn canolbwyntio'n benodol ar agweddau o'r Cynllun Strategol sy'n cael ei baratoi am y cyfnod 2018-23.
2. Byddai'r cyngor a dderbyniwyd yn ystod y dydd nawr yn bwydo i fersiwn nesaf y Cynllun Strategol, a gaiff ei rannu â staff, myfyrwyr a'r gymuned leol er mwyn cael adborth ganddynt. Byddai drafft pellach yn cael ei gyflwyno wedyn i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a'r Senedd i'w gymeradwyo yn eu cyfarfodydd ym mis Tachwedd, cyn gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol y Cyngor ar 27 Tachwedd 2017 (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor).
3. Byddai copïau o'r cyflwyniadau a wnaed gan yr Is-Ganghellor a'r Dirprwy Is-Ganghellorion yn cael eu rhoi ar SharePoint (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

## 8. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1718-007).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad y manylion ynglŷn â datblygiadau diweddar, gan gynnwys: penodiadau i uwch swyddi; llwyddiant yn Nhabl Cynghrair canllaw prifysgolion da y Sunday Times; datblygiad strategol; ymgysylltiad gwleidyddol; a chymeradwyaeth i achos busnes i gynnig Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon.
2. Roedd yr Is-Ganghellor wedi cael gwybod gan Brifysgolion Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £30 miliwn mewn cyllid cyfalaf i'r sector addysg uwch dros y tair blynedd ariannol nesaf.

## 9. CYNLLUN GWEITHREDU CYNALIADWYEDD (CGC)

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio, yn ymgorffori Dangosyddion Perfformiad Allweddol a chofnodion cyfarfod Grŵp y CGC i Arolygu'r Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Awst 2017 (COU1718-008); a
2. Cofnodion cyfarfod Grŵp y CGC i Arolygu'r Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Medi 2017 (COU1718-027).

NODWYD

3. Rhoddai'r adroddiad fanylion am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Atgoffwyd yr aelodau y gellid gweld yr wybodaeth bellach a ystyriwyd gan Grŵp CGC i Arolygu'r Cyngor trwy ffolder y Grŵp ar SharePoint.
4. Croesawodd yr aelodau'r cynnydd sy'n cael ei wneud, a thanlinellu pwysigrwydd dweud wrth gymuned ehangach y Brifysgol am y cynnydd.

## 10. PRIFYSGOL ABERYSTWYTH MAWRISIWS

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (COU1718-009).

NODWYD

1. Cafodd hysbysiad ei gyhoeddi yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 23 Mehefin 2017. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r datblygiadau ers hynny, a'r dewisiadau sy'n cael eu hystyried ar gyfer y cyfnod ar ôl 01 Ionawr 2018. Cyflwynir adroddiad pellach i'r Cyngor ar 27 Tachwedd 2017 er mwyn cael cymeradwyaeth i'r penderfyniadau ymarferol y byddai'n rhaid eu gwneud cyn y flwyddyn galendr newydd (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).
2. O 01 Ionawr 2018 ymlaen byddai'n rhaid canolbwyntio ar ddarparu'r addysg a'r profiad myfyriwr gorau posibl i fyfyrwyr PA sydd wedi'u cofrestru yn y gangen-gampws ar hyn o bryd tan iddynt gwblhau eu hastudiaethau. Roedd cyllid ar gyfer gwneud hyn wedi ei gynnwys yn y Cynllun Cynaliadwyedd.
3. Roedd trafodaethau â'r adrannau academaidd sy'n darparu rhaglenni yn y gangen-gampws wedi dangos nad oedd awydd arnynt i dderbyn myfyrwyr newydd ym mis Mawrth 2018.

**PENDERFYNWYD**

4. Sefydlu is-gwmni newydd ym Mawrisiws yn eiddo'n llwyr i PA, er mwyn hwyluso'r gwaith o ddysgu'r myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yno yn y flwyddyn galendr newydd, rhag ofn y byddai angen cwmni o'r fath (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).
5. Na fyddai'r Brifysgol yn derbyn mwy o fyfyrwyr i'w cofrestru yn y gangen-gampws (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

## **11. DIWEDDARIAD ARIANNOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (COU1718-010).

NODWYD

1. Yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Gorffennaf, roedd y canlyniad ariannol gweithredol yn unol â'r disgwyliadau a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 23 Mehefin 2017, cyn gwneud addasiadau ar gyfer pensiynau a symudiadau wrth gefn eraill. Dechreuodd yr Archwilwyr Allanol ar yr archwiliad pen blwyddyn ar 02 Hydref 2017.
2. Er bod y llifoedd arian gweithredol yn unol â'r disgwyliadau, roedd y gostyngiad yn y llif arian oherwydd symudiadau cyfalaf gwaith yn cael ei archwilio er mwyn datrys unrhyw oblygiadau hirdymor posibl. Trafododd yr aelodau'r dull y derbynnir incwm o'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr mewn tri rhandaliad anghyfartal, a'r ffordd y mae hyn yn effeithio sefyllfa llif arian y Brifysgol yn fisol.

## **12. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1718-011).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion ar ddatblygiadau diweddar, gan gynnwys: derbyn israddedigion ac uwchraddedigion; canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrywyr; newidiadau i ffioedd a chynhaliaeth israddedigion Cartref / UE; canlyniadau tablau cynghrair canllaw prifysgolion da y Times a'r Sunday Times 2018; ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.
2. Roedd Llywodraeth San Steffan wedi cyhoeddi y byddai'n rhewi ffioedd dysgu israddedigion amser llawn Cartref/UE yn Lloegr. Pan fyddai gwybodaeth ar gael am ffioedd yng Nghymru, byddai cynnig yn cael ei roi gerbron y Cyngor (**GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Cynllunio**). Yn y cyfamser, mae'r Brifysgol wedi rhoi brawddeg addas ar ei gwefan er mwyn cydymffurfio â gofynion yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.
3. Byddai drafft o ymateb y Brifysgol i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ddiwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl Gorfodol yng Nghymru' yn cael ei gylchredeg i'r Cyngor i'w ystyried trwy ohebiaeth tua chanol mis Hydref 2017. Bydd yr ymateb yn tanlinellu'r angen i sicrhau bod buddiannau addysg uwch yn cael eu hyrwyddo, a bod yr arbenigedd yn y Cyngor Cyllido ar hyn o bryd yn cael ei gadw.

### **13. DATGANIAD A MATRICS ARCHWAETH RISG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1718-012).

NODWYD

1. Yn unol â Pholisi'r Brifysgol ar Reoli Risg, gwahoddir y Cyngor i adolygu'r Datganiad a Matrics Archwaeth Risg yn ei gyfarfod llawn cyntaf bob blwyddyn academaidd.
2. Yn rhan o'r drefn hon, roedd Gweithrediaeth y Brifysgol wedi adolygu'r dogfennau ac nid oedd yn argymhell gwneud diwygiadau i'r Datganiad a Matrics Archwaeth Risg.

**PENDERFYNWYD**

3. Cadw geiriad cyfredol y Datganiad a Matrics Archwaeth Risg, heblaw am newid y dyddiad ar y Matrics Risg (**GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Cynllunio**)

### **14. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1718-013).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi perfformiad o'i gymharu â'r Dangosyddion y cytunwyd arnynt ar gyfer monitro gweithrediad Cynllun Strategol 2012-2017. Er bod cynnydd da wedi'i wneud ar y dangosyddion ansoddol, byddai angen rhagor o waith yng nghyswllt y dangosyddion meintiol.

### **15. ADRODDIAD SWYDDOG DATBLYGU UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Datblygu UMAber (COU1718-014).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf am y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.
2. Trafododd yr aelodau'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n dewis byw gartref a chofrestru yn eu prifysgolion lleol. Tanlinellwyd pwysigrwydd dangos gwerth astudio yn Aberystwyth, ac roedd Gweithrediaeth y Brifysgol eisoes yn gweithio i ddatblygu llwybrau mynediad i'r Brifysgol o ysgolion allweddol a cholegau Addysg Bellach.

## **16. CYFRIFOLDEBAU AELODAU'R CYNGOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-015).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r cylchlythyrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Cyngor Cyllido a chyrrff eraill yn nodi cyfrifoldebau aelodau byrddau llywodraethu prifysgolion. Rhaid i aelodau'r Cyngor ymgyswngwyo â'r cyfrifoldebau hyn.
2. Roedd Ysgrifennydd y Brifysgol, mewn ymgynghoriad â'r Is-Ganghellor a Gweithrediaeth y Brifysgol, yn adolygu cydymffurfiaeth â'r Cod Rheoli Cyllidol. Byddai unrhyw feysydd sydd angen eu hystyried ymhellach yn cael eu dwyn i sylw'r Cyngor yn y dulliau priodol.

**PENDERFYNWYD**

3. Y dylai aelodau newydd y Cyngor, wrth eu penodi, lofnodi cytundeb i gadarnhau eu bod wedi cael copi o ddogfennau allweddol sy'n nodi eu cyfrifoldebau fel llywodraethwyr ac ymddiriedolwyr, a'u bod yn derbyn y cyfrifoldebau hynny (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

## **17. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1718-016).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad grynoded o'r risgiau arwyddocaol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

## **18. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1717-017).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y defnyddiodd y Cadeirydd y Pwerau Gweithredol y darperir ar eu cyfer gan Reol Sefydlog 6.11.
2. Y materion a gymeradwywyd gan y Cadeirydd trwy Gamau Gweithredol oedd:
  1. y dealltwriaethau y daethpwyd iddynt yn ystod ail hanner cyfarfod y Cyngor ar 23 Mehefin 2017 pan nad oedd cworwm;
  2. ymateb y Brifysgol i ymgynghoriad CCAUC ar weithdrefnau i ymdrin â chwynion yn erbyn sefydliadau;

3. ymateb y Brifysgol i'r ymgynghoriad ar gydymffurfio â hysbysiad y Safonau Iaith; a
  4. cynllun ffioedd a mynediad diwygiedig am 2017–18 mewn ymateb i adborth y Cyngor Cyllido.
3. Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar hefyd yn dweud iddo gytuno ar lythyr at Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â'r Is-Ganghellor yn cyflwyno achos am gymorth ariannol tuag at adnewyddu Pantycelyn. Byddai copi o'r llythyr ar gael trwy SharePoint (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

## 19. ADRODDIADAU O BWYLLGORAU

### DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (COU1718-018):

1. Y Senedd (20 Medi 2017);
2. Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (09 Mehefin 2017);
3. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (14 a 26 Gorffennaf 2017); a
4. Grŵp Gweithredol y Brifysgol (20 Mehefin, 04 Gorffennaf, a 19 Medi 2017).

### NODWYD

5. Trafododd yr aelodau a ddylai aelodau'r Cyngor gael gwybod am brosesau mewnol y gallai fod oblygiadau iddynt a phryd y dylent gael gwybod. Cydnabuwyd na fyddai'n briodol i rannu manylion wrth i brosesau ffurfiol fynd rhagddynt. Ond, dylid rhoi gwybod yn benodol i aelodau mewn termau cyffredinol ac nid trwy gyfrwng cofnodion is-bwyllgorau, yn enwedig os ydynt yn rhai sensitif.
6. Yr adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgorau.